

Mathemateg

Byddwn yn gweithredu awr o waith rhifedd yn ddyddiol drwy roi ffocws i strategaethau mathemateg pen, sgiliau ymchwiliol mathemategol a datrys problemau mewn sefyllfaoedd bywyd bob dydd.

Hoffem petaech yn sicrhau fod eich plentyn yn cwblhau ei waith/gwaith cartref mewn pensil yn hytrach nag inc.

Iaith

Byddwn yn canolbwyntio ar y ffurfiau canlynol drwy ddilyn camau ieithyddol.

- Cerdyn Post
- Paragraff Disgrifiadol
- Erthygl Papur Newydd
- Llythyr Anffurfiol
- Pamffled / Taflen Gwybodaeth
- Gweithgareddau llafar

Darllen

Byddwn yn datblygu sgiliau darllen drwy weithgareddau ieithyddol amrywiol. Mae hyn yn targedu amryw o sgiliau darllen ac yn gwella eu dealltwriaeth o destun.

Ein bwriad yw meithrin a chynnal diddordeb y plant mewn darllen a hyrwyddo eu datblygiad fel darllenwyr annibynnol.

Gwyddoniaeth

Yn ystod y tymor byddwn yn:-

- Edrych ar sgerbwd y corff, enwau a swyddogaeth prif organau'r corff.
- Edrych ar y dannedd a phwysigrwydd cadw ein dannedd yn lân.
- Edrych ar yr angen am amrywiaeth o fwydydd ac ymarfer ar gyfer iechyd a chorff iach.

Addysg Gorfforol

Yn ystod y tymor byddwn yn canolbwyntio ar:-

- Sgiliau gemau amrywiol
- Dawns
- Ffitrwydd
- Cyfeiriannu
- Nofio ar ddydd Mercher

Gofynnwn i bob plentyn fod â dillad ac esgidiau addas ar gyfer y gwersi. Bydd pob dosbarth yn cael ei gwersi ar **Ddydd Iau**.

Gwaith Cartref

Bydd yn cael ei osod ar ddydd Gwener a dylid ei ddychwelyd erbyn y dydd Mercher canlynol.

Bydd llyfrau i'w darllen gartref yn cael eu newid ar **ddydd Gwener**.

Hoffem petaech yn arwyddo'r cofnod darllen yn rheolaidd.



Y Byd a'i Ryfeddodau

Gwybodaeth i Rieni
Blynnyddoedd 3 & 4



Daearyddiaeth, Hanes, Addysg Grefyddol a Cherddoriaeth

- 7 Rhyfeddod y Byd Newydd
- Yr Hen 7 Ryfeddod y Byd
- Rhyfel Byd Cyntaf
- Sul y Cofio
- Y Chwedegau
- Hanes y Creu
- Stori Pangu
- Cynrychioli hanes y creu drwy gyfansoddi
- Cerddoriaeth o'r Chwedegau

Celf

Astudio Celf o wahanol wledydd

60'au - Pop Art

Dylunio a Thechnoleg

O ble ddaw ein bwyd? Ymchwilio i fywd o wahanol wledydd

Technoleg Gwybodaeth

Defnyddio amryw o raglenni er mwyn diwallu gofynion y Cwricwlwm.

Sut allwch chi helpu eich plentyn?

- Darllen a deall ystod o ffynonellau gwahanol a diddorol, e.e. llyfrau amrywiol, arwyddion ffordd, papurau newydd, cylchgronau a gwefannau addas.
- Ymarfer tablau llusci, gweithio ar strategaethau adio a tynnu yn y pen, trin arian mewn bywyd bob dydd ac atgyfnerthu gwybodaeth o amser drwy gyfeirio at glocliau digidol ac analog yn y byd o'n cwmpas.

Ymweliadau

Bydd gwybodaeth bellach yn cael ei ddosbarthu yn ystod y tymor.